

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 23<sup>AIN</sup> MEHEFIN 2021**  
**(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwynfor Davies (GD), Gwyn Williams (GW), Einir Williams (EW) a Mark Davies (MD)

**1.3** Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

AV – 7.1

GLL – 5.2

**3 COFNODION I'W GWIRO 28<sup>AIN</sup> MAI 2021**

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan DR.

**4 MATERION YN CODI**

Materion yn codi fel isod wedi eu nodi yn yr agenda.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** 0/48599: dim i'w nodi, cymeradwyo'r cais.

**5.2** 0/48581: er gwybodaeth yn unig i'r cynghorwyr.

**6 MATERION ARIANNOL**

**6.1** Contract Cyflogaeth Enlli: EW wedi drafftio contract cyn y cyfarfod. EW am edrych am y cofnodion i gadarnhau pryd gytunwyd fod Enlli yn ymgymryd â'r gwaith cofnodion a chyfieithu gan fod angen hyn ei wneud cyn ddiwedd y mis er mwyn yr awdit. Enlli am gadarnhau cyn y penwythnos os yw'n hapus efo'r cytundeb ddrafft a gadael i EW wybod. Bydd y cynghorwyr eraill yn cael copi yn dilyn hynu.

**7 MATERION Y CYNGOR**

**7.1** Giatiau Mynwent: AV yn gadael y cyfarfod. CR yn nodi ei fod wedi cael pris gan Barry yn cynnig glanhau'r giatiau a'u paentio am gost o £225 a dim TAW.

Ail bris gan Ednyfed Vaughan, darllenodd CR yr amcan bris i'r Cyghorwyr am £500 ond noder gall y gost derfynol fod ychydig mwy neu lai yn ddibynol ar bwysau'r giatiau ar gyfer galvenisio. Gofynnodd DR os fuasai'r galvenisio yn para am byth, ac felly buasai hyn yn werth am arian gan na fyddai angen eu hail baentio yn y dyfodol. GW yn cynnig galvenisio'r giatiau, eilwyd gan EW & DR. Pawb yn gytun efo'r dewis ac yn hapus gall y gost fod ychydig yn fwy yn ddibynol ar y pwysau.

**7.2** Awdit: i'w drafod mis nesaf. CR yn adrodd fod EW wedi gwneud gwaith trylwyr i baratoi hwn, nododd EW fod DR & GD wedi helpu drwy ddarparu'r ffigyrau. Cytunwyd i drafod yr awdit nos Lun nesaf, 7:30yh 28<sup>ain</sup> Mai 2021.

**7.3** Sêdd wag Llangernyw: CR yn holi'r Cynghorwyr os ydynt yn gwybod am rhywun fuasai a diddordeb. DR wedi son wrth rhywun yn Llangernyw ond heb gael ateb eto. Angen hysbysebu'r sêdd wag. Adroddodd EW fod ganddi gyfarwyddiadau gan y Cyngor Sir, am yrru rhain ymlaen i CR. GLL yn codi ei fod werth gyrru ebost at Lucy Steel i ddweud fod sedd wâg ar y Cyngor er cwrteisi.

**7.4** Wedi derbyn ebost gan aelod o'r cyhoedd yn Llangernyw fod gyrrwyr ddim yn cymeryd sylw o'r arwyddion yn y pentref. Gofyn am arwydd sydd yn fflachio i nodi cyflymder. Wedi gwneud ymholiadau am arwydd sydd yn fflachio a gofyn os yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon prynu arwydd o'r fath. GLL yn adrodd fod y cynllun 20mya dal yn y cyfnod ymgynghorol. CR yn gofyn i GLL os oedd modd cael 30mya/20mya wedi ei baentio ar y ffordd yn y pentref. GLL hefyd yn nodi ei fod wedi bod mewn cyswllt efo Go Safe, wedi nodi pryder pellach a wedi gofyn iddynt ddod i'r pentref. DR yn gofyn os yw'r Cyngor yn fodlon cysidro prynu'r arwyddion sydd yn fflachio ar gyfer y pentref. AV yn nodi fod hyn yn fater o ddiogelwch. DR yn adrodd fod y pentrefwyr wedi rhoi arwyddion eu hunain i fyny yn ddwy-ieithog i geisio annog pobl i arafu. GW yn codi fod pobl lleol yn gor-yrru. Trafodwyd gwneud cais am gymorth ariannol gan Fferm Wynt Clocaenog. GLL yn nodi fod angen cyd-weithrediadd y Cyngor Sir a gofyn am ymateb y Cyngor Sir cyn gwneud penderfyniad pellach ynglyn â hyn. CR i gysylltu â'r Cyngor Sir i wneud ymholiadau.

## **8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Bysiau ysgol yng Ngwytherin – GLL, REW & EW wedi cyfarfod efo'r Cyngor Sir yng Ngwytherin ynglyn â hyn.

Ffens cae chwarae yng Ngwytherin, cyfarfod swyddog arall o'r Cyngor Sir i symud ymlaen efo'r mater yma.

\*MD yn ymuno â'r cyfarfod\*

Y Bont Faen – wedi cael diweddariad gan y Cyngor Sir, gwaith yn mynd i ddechrau tua mis Awst/Medi gobeithio. Gwaith cerrig, seiliau a gwaith ar wyneb y ffordd angen ei wneud.

Ffordd yn arwain i Gwytherin wedi cau, dim rhybydd wedi dod i law, GLL wedi cwyno'n ffurfiol nad yw'r Cyngor Sir wedi dilyn y broses na rhoi rybydd cyn cau'r ffordd.

Glyn Jones, Elwy wedi dod o hyd i garreg oedd ei dad wedi ddarganfod o dan y Bont Faen, ar wyneb y garreg, mae llun wedi ei gerfio arni. Gofyn beth fuasai'r peth gorau i wneud efo'r garreg, gofyn os oedd angen ei rhoi yn ôl yn y bont neu yn Amgueddfa'r Cwm. Cynghorwyr i feddwl am hyn a thrafod y mater mis Hydref.

## **9 BILIAU**

**9.1** Safle Wê - Arfon Parry: £155, cytunwyd i dalu.

**9.2** Enlli: £137.30, cytunwyd i dalu.

**9.3** 2 gopi anfoneb gan y Gadlas am hysbysebion (torri mynwentydd a clerc): cyfanswm £12. DR wedi edrych drwy'r fantolen ond dim cofnod o'r anfonebau. REW am eu gyrru ymlaen i GD i edrych i mewn i'r mater, i'w drafod mis nesaf.

**9.4** Dei Evans (torri mynwentydd): £420, cytunwyd i dalu.

**9.5** AV am tybiau blodau a compost: £92.90, cytunwyd i dalu. DR yn nodi fod pobl yn gwerthfawrogi'r blodau. AV yn diolch i bawb am helpu efo'r gwaith plannu yn y tri pentref.

## **10 MATERION LLEOL**

**CR** wedi nodi ar yr agenda er mwyn cofnodi'r posibilrwydd o fferm wynt Bute Energy yn yr ardal. AV yn datgan diddordeb.

GLL wedi dod i wybod am hyn tua wythnos yn ôl drwy ebost, cynllun gan Lywodraeth Cymru i ddynodi 10 ardal addas ar gyfer ffermydd gwynt yng Nghymru. Presumed consent – dim angen mynd trwy broses cynllunio lleol gan fod y cynllun yn deillio o'r Cynulliad. Bydd proses ymgynghori llawn a chyhoeddus yn cynnwys y cymunedau lleol, Cynghorau Cymuned, Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru ayyb. GLL wedi cyfarfod efo swyddogion Bute Energy ddiwedd wythnos diwethaf. Mae'r ardal yn eang iawn ond mae'r cais sydd yn cael ei drafod yn benodol am ardal Moelfre Uchaf a'r posibilrwydd o 16 tyrbein ar hyn o bryd. Wedi siarad efo adran gynllunio Conwy, dim cais ffurfiol wedi mynd i mewn eto. GLL yn adrodd fod yn bwysig ei fod yn rhoi gwybodaeth gywir di-duedd i'r gymuned. Megis

dechrau'r broses mae'r cwmni, bydd GLL yn hapus i adrodd yn ôl i'r Cyngor. DR yn gofyn os fuasai GLL yn fodlon adrodd am hyn eto yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Dim trafodaeth am y mater, GLL yn adrodd i'r Cyngor fel uchod yn unig.

**AV** yn nodi fod arian pellach o £500 ar gael gan y Cyngor Sir gan nad yw Llanfair TH wedi defnyddio'r pot o arian. Gofyn os oedd rhywbeth fuasai'n gallu cael budd o'r arian yn Llangernyw – arian cyfatebol efo gwaith gwirfoddol. AV yn nodi fod angen ail-baentio'r arhosfan bws yn Llangernyw. Trafodaeth efallai y buasai Merched y Wawr â diddordeb.

**DR** yn nodi nad oes posibil eistedd ar y fainc gyferbyn â'r Cwm oherwydd gor-dyfiant o'r clawdd gerllaw. GW yn nodi mai perchennog y tŷ sydd berchen y clawdd sydd yn gyfrifol am dorri'r clawdd. MD am wneud ymholiadau.

Gofyn os oedd modd trwsio ffordd ar yr allt am Pen y Bryn, am ddefnyddio Report It.

Dal heb gael ymateb am y coed yn yr Ardd Goffa.

**GW** plant Pandy Tudur hefyd angen arhosfan bws efo cysgod rhag y glaw. GLL am edrych i mewn i'r mater.

**EW** wedi cael trafferth efo'r sgipiau cymunedol yng Ngwytherin a Phandy Tudur, yn anffodus aelod o'r tîm sgipiau wedi cael Covid-19 felly pawb wedi hunan ynysu. Cyngor wedi gyrru fan i nôl yr eitemau oedd wedi eu gadael ger y safle ar y diwrnod yng Ngwytherin a wedi cael dyddiadau newydd - 27<sup>ain</sup> Gwytherin, 29<sup>ain</sup> Pandy Tudur.

Trigolion Gwytherin yn nodi fod gwaith trwsio ffordd da wedi cael ei wneud yn ddiweddar yn yr ardal.

**REW** hefyd yn nodi fod gwaith agor ffosydd ar droed hefyd.

## **11 CYFARFOD NESAF**

28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2021 (Cyfarfod Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 8:45yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan